# cwmpawd

eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd



Rhif 57
Gorffennaf - Medi 2009

# Golygyddol

## *Gwynn Williams*

Mewn arolwg diweddar gan y *National Biblical Literacy Survey* datganwyd mai tua 10% yn unig o'r boblogaeth sydd bellach ag unrhyw wybodaeth am brif gymeriadau'r Beibl a'u rhan yn hanes Cristnogaeth. Nid oedd braidd neb yn gwybod y Deg Gorchymyn; 15% oedd yn gwybod hanes geni Iesu Grist a 7% yn unig a wyddai am y Sulgwyn. Mae hyn yn golygu bod gwerthfawrogiad pobl o hanes, diwylliant, cerdd, celf a llenyddiaeth yn ddiffygiol oherwydd bod cymaint o themâu a chyfeiriadaeth Gristnogol ynddynt.

Mae ffigyrau fel hyn yn frawychus, ac yn naturiol yn creu tristwch ac anniddigrwydd ynom, er nad ydynt efallai yn ein synnu. Fe ellid wrth gwrs dreulio amser yn ceisio dyfalu pa ffactorau sydd wedi cyfrannu i'r dirywiad amlwg hwn – ac mae'n siŵr bod nifer o bethau yn neidio'n syth i'r meddwl. Ond ar y llaw arall mae'n amlwg bod angen i ni fel Cristnogion ofyn beth y dylem ei wneud mewn sefyllfa o'r fath.

I ddechrau dylem sicrhau ein bod ni ein hunain yn hyddysg yng nghynnwys y Beibl ac yna gofalu ein bod yn meithrin ein plant a'n pobl ifainc yn drwyadl yng Ngair Duw. Golyga hyn, efallai, edrych ar gynnwys ac effeithiolrwydd ein pregethu, ein dulliau dysgu mewn ysgol Sul a gweithgareddau plant a'r bobl ifainc, ynghyd wrth gwrs â'n holi ein hunain ynglŷn â faint o amser a dreuliwn yn darllen y Gair ac yn myfyrio ynddo.

Ar fater efengylu mae'r cwestiwn yn codi beth y gallwn ei gymryd yn ganiataol, naill ai wrth bregethu neu wrth siarad â rhywun. Mae'r sefyllfa'n ymdebygu fwyfwy i'r hyn a wynebai Paul wrth iddo fynd i Effesus, Athens a Corinth i bregethu i baganiaid na wyddai ddim am yr Hen Destament heb sôn am Iesu Grist. Y cysur i ni yw iddo lwyddo a gweld rhai yn dod i ffydd, ond mae ganddo lawer i'w ddysgu i ni yn y modd y bu iddo, yn nerth yr Ysbryd, wynebu'r sialens.

Mae'r sefyllfa yn sicr yn galw am weddi, ond hefyd am feddwl dwfn ynglŷn â sut mae gwella llythrennedd Feiblaidd o fewn yr eglwys a'r tu allan iddi.

# Cyfarfodydd Y

Dyma'r erthygl olaf mewn cyfres yn cyflwyno gwahanol weithgareddau'r Eglwys.

**Oedfaon y Sul**

Cynhelir dwy oedfa ar y Sul. Mae oedfa'r bore yn gyfle i holl aelodau'r eglwys, yn hen ac ifanc, ynghyd â'r plant, ddod at ei gilydd i gydaddoli. Nid oes dim yn fwy cymwys na dod ynghyd fel teulu ar ddydd cyntaf yr wythnos i ddathlu atgyfodiad Iesu Grist, i gael cymdeithas â'n gilydd ac i glywed gair Duw yn cael ei bregethu. Heb os, dyma oedfa bwysicaf yr eglwys. Mae'n gyfle i ni gael ein hadeiladu yn ein ffydd, ac unwaith y mis i ddathlu Swper yr Arglwydd.

Er bod oedfa'r hwyr yn dilyn patrwm eithaf tebyg i oedfa'r bore, mae'n wahanol oherwydd bod y plant iau yn absennol, ynghyd â'r rhai sy'n eu gwarchod. Mae'n gyfle felly i wahodd rhai atom, gan roi cyfle i ni i esbonio'r Efengyl i rai sydd hyd yma heb ddod i'w deall a'i chredu.

*Gwynn Williams*

**Yr Ysgol Sul**

I'r rheini ohonoch sy'n ceisio dyfalu beth yn union sy'n digwydd pan fydd y plant a'r bobl ifainc yn gorfod gadael y baned a'r cymdeithasu yn gynnar ar foreau Sul, dyma fraslun o drefniadau'r Ysgol Sul. Cynhelir tri dosbarth ar hyn o bryd, ar gyfer oedrannau gwahanol.

Bydd y bobl ifainc, oed ysgol uwchradd, yn cael gwersi gyda Gwydion. Eleni maen nhw wedi astudio Malachi, ac ar hyn o bryd maen nhw'n tynnu at derfyn llyfr y Datguddiad. Y patrwm arferol yw astudio llyfr o'r Hen Destament a'r Testament Newydd bob yn ail. Byddant yn edrych ar ddarn penodol, yn ceisio deall yr hyn sy'n cael ei ddweud, ac yn trafod cwestiynau ymarferol a pherthnasol a fydd, gobeithio, yn eu helpu i gymhwyso'r gwirionedd i'w bywyd nhw. Weithiau bydd y wers yn dilyn trywydd ychydig yn wahanol i'r hyn a baratowyd gan yr athro wrth i'r bobl ifainc godi cwestiwn annisgwyl, neu wrth iddynt weld rhyw gymhwysiad newydd, nad oedd wedi dod i feddwl yr athro wrth baratoi! Dro arall, bydd y dosbarth yn torri ar y gyfres am

# Sul


wythnos er mwyn trafod rhyw fater cyfoes sy'n codi o fyd y bobl ifainc eu hunain. I orffen y wers, gofynnir i un ohonynt weddïo, ac mae cael y fraint o gyd-weddïo â nhw yn fendith bob amser.

Bydd y dosbarth ysgol gynradd a'r dosbarth meithrin yn cyd-gwrdd am ychydig ar ddechrau'r Ysgol Sul. Cânt y cyfle i ganu caneuon Cristnogol syml, ac i ddysgu a deall adnod newydd bob pythefnos. Yn ddiweddar maen nhw wedi bod yn dysgu'r adnodau sy'n dechrau â geiriau'r Iesu, 'Myfi yw ...'. Wedyn bydd y ddau ddosbarth yn ymwahanu – y rhai lleiaf yn cael gwers gyda Bethan George, a'r lleill yn cael gwers gyda Catrin Lewis. Braint fawr yw gweld rhai mor fychan yn dechrau dod i wybod hanesion y Beibl, ac yn dechrau deall hanfodion ein ffydd mewn ffordd syml iawn.

Mae Bethan George yn dymuno cael hoe o'r gwaith dros dro, ond dyma fantesio ar y cyfle i ddiolch iddi am ei gwaith ffyddlon a gweddigar hyd yn hyn. Mae'r plantos bach wedi elwa a'r rhieni'n gwerthfawrogi'n fawr.

Gwerthfawrogir eich gweddïau dros waith yr Ysgol Sul. Mae ceisio cymhwyso'r Beibl mewn ffordd sy'n berthnasol i'r ystod o oedrannau yn dipyn o her. Gweddïwn am ffrwyth i'r had sy'n cael ei hau o wythnos i wythnos.

*Gwydion Lewis*



# ...Nid oes enw

## *Emyr James*

> **‘Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i’r ddynolryw, y mae’n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo**.’
> – Actau 4:12

Rydym yn byw mewn cymdeithas apathetig. Y *motto* cyffredinol yw, ‘Cred beth a fynni.’ Does dim gwirionedd absoliwt. Mae rhyddid i bawb gredu beth bynnag sy’n mynd â’u bryd. Ond mae geiriau Pedr yn Actau 4, wrth iddo annerch Cyngor crefyddol yr Iddewon, yn chwalu’r syniad bod pawb yn medru bod yn gywir. Mae’n cyhoeddi ‘**nid oes iachawdwriaeth yn neb arall**’ cyn mynd ymlaen i esbonio pam y mae’n dweud hynny. Felly beth yw rhesymeg Pedr?

‘**Oblegid nid oes enw arall dan y nef**.’ Wrth i Pedr gyfeirio at enw, nid sôn am deitl yn unig a wna. Yn ein cymdeithas ni bellach y cyfan mae enw yn ei ddweud am berson yn aml yw bod ei rieni’n hoffi’r enw, neu wedi dod o dan ryw ddylanwad arbennig (er enghraifft, os caf i fab byth, byddaf yn awyddus iawn i’w alw’n Aragorn gan fy mod i’n ffan mawr o’r llyfr *Lord of the Rings*!). Ond yn y Beibl mae enw yn golygu llawer mwy na pheth felly. Credai rhieni fod enw plentyn yn dweud rhywbeth am y plentyn ei hun. Dyma pam, wedi i Dduw ateb cyfnod hir o weddïo, mae Hanna yn galw ei mab hi’n Samuel, enw sy’n golygu ‘clywodd Duw’, neu ‘gofynnwyd gan Dduw’.

Nid oedd hyn yn gyfyngedig i blant yn unig: newidiodd Duw enw Abram, sy’n golygu ‘Tad Uchel’, i Abraham, sy’n golygu ‘Tad i lawer’ yn sgil ei addewid y byddai’n rhoi disgynyddion niferus iddo.

Ac ni chyfyngir y ffenomen i ddynion yn unig chwaith. Mae enwau Duw yn datuguddio rhywbeth i ni am ei gymeriad sylfaenol Ef. Pan ofynnodd Moses i Dduw am ei enw, ateb Duw oedd Jehofa, sy’n golygu ‘Yr hwn sydd’

arall...

neu ‘Ydwyf yr hyn ydwyf’. Yma mae Duw yn dangos inni rywbeth arbennig am ei gymeriad: mae’n dangos ei fod Ef wedi bodoli ers tragwyddoldeb, bod ei fodolaeth yn annibynnol ar bob dim a greodd ac mai ond trwy gyfeirio at Dduw ei hun y mae modd diffinio bodolaeth Duw o gwbl

Yn y Beibl derbyniodd Iesu sawl enw, ond y rhai mwyaf adnabyddus yw Iesu (sy’n golygu ‘Duw ein gwaredwr’), Crist (‘wedi ei eneinio’) ac Immaniwel (‘Duw gyda ni’). Felly pan ddywed Pedr, ‘nid oes enw arall dan y nef’ wrth gyfeirio at Iesu Grist, mae’n cyfeirio at y person cyfan; mae’n dweud bod Duw gyda ni, bod y person hwn wedi ei eneinio, bod Duw wedi anfon ei Fab er mwyn ein gwaredu.

Mae hyn yn ein harwain at gymal nesaf Pedr, ‘**wedi ei roi i’r ddynolryw**’. Fel y gwyddom, mae ein byd ni’n llawn crefyddau, credoau, syniadau, damcaniaethau, systemau cymdeithasol a.y.y.b. O ble mae’r holl bethau hyn wedi dod? O ddyn. Mae dynion wedi ceisio darganfod ystyr ein bodolaeth, pam yr ydym ni yma, sut un yw Duw, sut mae plesio Duw, sut mae byw bywyd yn ei holl gyflawnder. Ond y broblem sylfaenol ynghylch



y pethau hyn i gyd, a'r rheswm pam y maent i gyd yn methu yn y pen draw, yw am iddynt ddod o ddyn. Ac yn ei stâd naturiol, pechadurus, dall, ysbrydol farw, ni all dyn weld y gwirionedd.

Ond y newyddion da sydd gan Pedr yw bod yr ateb 'wedi ei roi i'r ddynolryw'. Nid yw'r ateb wedi cael ei ddarganfod, ei synhwyro na'i ddychmygu gan ddynion, ond mae wedi ei roi yn rhodd gan Dduw i'r ddynolryw. Anfonodd Duw'r Tad ei Fab i'r byd er mwyn pregethu'r newydd da i dlodion, i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.

Wrth glywed y geiriau rhyfeddol hyn, mae'n anodd deall sut y gall unrhyw un anwybyddu neu wrthod y cynnig graslon hwn gan greawdwr y byd. Ond fel y gwyddom, mae llawer yn anwybyddu, yn gwrthod, yn gwamalu ac yn oedi. Dylai cymal olaf Pedr fod yn siars i unrhyw un sy'n ymateb felly, '... **y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo**.'

Os ydych am gael eich hachub, os ydych am dderbyn maddeuant am yr euogrwydd rydych yn ei deimlo am bethau a wnaethoch yn ystod eich bywyd, os ydych am gael eich mabwysiadu gan Dduw i fod yn rhan o'i deulu a chael sicrwydd o etifeddiaeth dragwyddol yn ei gwmni Ef, yna mae'n **rhaid** i chi gael eich achub drwy Iesu Grist. Does dim dewis arall. Does dim enw arall dan y nef. Gadawodd e'r gogoniant a oedd ganddo yn y nef, ei darostwng ei hun a dod i'r byd er mwyn rhoi'r cyfle hwn i ti. Gelli di edrych ym mhobman am weddill dy oes, ond wnei di fyth ddod o hyd i'r ateb yn unman arall ond yn Iesu Grist.

Mae'n rhaid i ni gael ein hachub oherwydd na allwn ein hachub ein hunain; does dim byd arall sydd yn gallu ein hachub; ac mae canlyniad peidio â chael ein hachub yn rhy frawychus i'w hystyried.

---

**MORGAN LLWYD (1619-1659),**
Piwritan Cymraeg ac awdur *Llyfr y Tri Aderyn*.

Duw a'm carodd, Duw a'm cofiodd,
ceisiodd, cafodd, cadwodd, cododd,
Haul fy mywyd drwy farwolaeth,
ffynnon f'ysbryd, swm fy hiraeth.


Allan o *Hanes Rhyw Gymro*.

# Llyfrau i'r cês

Bydd nifer ohonom yn mynd ar ein gwyliau dros yr wythnosau nesaf - dyma awgrymiadau Amanda Griffiths a Leri George ar lyfrau i bacio yn y cês.

Sebastian Barry, ***The Secret Scripture***

Bu'r nofel hynod hon ar restr fer y *Man Booker Prize*, ac yn Llyfr y Flwyddyn Costa 2008. Ynddi cawn hanes gwraig o'r enw Roseanne McNulty, sydd bron yn gant oed ac wedi bod yn glaf mewn ysbyty'r meddwl yn Iwerddon am y rhan fwyaf o'i bywyd. Cyflwynir y stori'n gelfydd trwy lygaid yr hen wraig yn y presennol ac fel gwraig ifanc yn y gorffennol, a thrwy lygaid y seiciatrydd Dr Grene – ei meddyg yn yr ysbyty. Llwyddodd yr awdur i weu'r presennol a'r gorffennol ynghyd yn daclus a thrwy hyn gwelwn sut y mae bywydau cymeriadau'r nofel yn ymgysylltu â'i gilydd. Bydd y nofel hon yn siŵr o apelio at rai sy'n hoffi nofelau hanesyddol ar y naill law, gan ei bod yn cyflwyno caledi bywyd gwragedd dosbarth gweithiol Iwerddon yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf, ond ar y llaw arall mae'n nofel dditectif




hynod o glyfar. Mae hi hefyd yn nofel gyfoethog iawn o ran portreadau a disgrifiadau pwerus o afaelgar, a pharagraffau sy'n ddarnau o lenyddiaeth bur a phrydferth.

Mwynheais i'r nofel hon yn fawr iawn am ei bod yn ddirgelwch llwyr – doeddwn i byth yn sicr beth oedd yn mynd i ddigwydd nesaf, ac mae'r tri naratif gwahanol yn cadw'r darllenydd yn effro, ac ar bigau'r drain er mwyn darganfod y dirgelwch mawr ym mywyd yr hen wraig hon, a'r gyfrinach sy'n


cysylltu'r cymeriadau â'i gilydd. Nofel dda ar gyfer unrhyw wyliau yr haf yma!

Soniais mewn adolygiad blaenorol am fy hoffter o fywgraffiadau Cristnogol a dyma un arall:

Colin Hamer, ***Anne Boleyn*** (yn y gyfres *History Today*)
Dyma lyfr da i'r rheini ohonoch sy'n hoffi hanes. Mewn tair pennod ar ddeg, llwydda'r awdur i gyfleu sut y llwyddodd Anne Boleyn i ddod i'r brig yn Lloegr yng nhyfnod y Tuduriaid trwy briodi Harri , gan sicrhau pŵer dros y wlad gyfan fel brenhines Lloegr. Ond, gan mai llyfr Cristnogol yw hwn, gwelir hefyd sut y bu i Anne gyflwyno'i daliadau Cristnogol, efengylaidd i lys Harri VIII ac i'w deyrnas. Dengys fod Anne yn Gristion selog, a chanddi ffydd bersonol yng Nghrist, a bod llawer o'i phenderfyniadau fel brenhines a nifer o gyfreithiau'r wlad yn adlewyrchu hyn. Ni allaf honni bod yn hanesydd o fri, ond mwynheais y llyfr yma'n fawr iawn, yn arbennig y cyfle i ddysgu am ddewrder y wraig ifanc hon na fynnai gyfaddawdu ei daliadau Cristnogol er gwaethaf gwrthwynebiad yr Eglwys Babyddol a llys a gwlad lawn gelynion i'r Efengyl.

Llyfr byr yw hwn, ond mae wedi'i ysgrifennu'n glir ac yn gryno. Llwyddodd i wneud y problemau a wynebodd Anne yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a hithau'n frenhines Lloegr ac yn Gristion, i fod yn berthnasol i ni heddiw, a llwyddodd hefyd i'm herio i ddibynnu mwy ar Dduw wrth wneud penderfyniadau bywyd.

*Amanda Griffiths*





Hoffwn gymeradwyo dau lyfr: un yn hen ffefryn, ac un rwyf wedi ei fwynhau'n ddiweddar. Cofiannau yw'r ddau, a'r naill awdur fel y llall

yn ysgrifennu cofnod o fywydau ei rieni.

Byddwch yn gyfarwydd â Raymond Briggs – cartwnydd, a chreawdwr y *Snowman*, *Fungus the Bogeyman* a llyfrau cartŵn mwy difrifol fel *When the Wind Blows*. Yn *Ethel & Ernest* mae'n troi at destun nes adref – ei fam a'i dad. Cawn hanes y pâr o'u carwriaeth i'w dyddiau olaf, 43 blynedd sy'n cwmpasu'r Ail Ryfel Byd a newidiadau cymdeithasol mawr. Mae profi'r digwyddiadau hyn trwy lygaid a bywydau'r ddau annwyl yma yn drawiadol ac yn gofiadwy: cwympo mas dros anfon eu mab i'r wlad fel *evacuee*; Raymond yn ceisio perswadio'i dad i molchi yn yr ystafell molchi yn hytrach na'r gegin (*'No. Not in the BATHROOM. Not in THIS state.*'); mam Ernest yn meddwl bod y cyflwynydd radio yn gwrando ar eu sgwrs.

Bywyd pob dydd Ernest ac Ethel yw ffocws y llyfr, fodd bynnag: sgyrsiau dros y bwrdd bwyd, y ddau wrth eu gwaith, eu llawenydd a'u pryderon wrth godi eu hunig fab, salwch ac, yn y diwedd, marwolaeth. Yr hyn sy'n eich taro, yn gyntaf, yw cryfder eu priodas er eu bod nhw'n gymeriadau gwahanol iawn i'w gilydd sy'n aml yn anghytuno; ac yn ail, cariad y mab at ei rieni. Yn aml mae'r lluniau eu hunain (golwg ar wyneb y naill neu'r llall, neu ryw fanylyn pitw sy'n ei gwneud hi'n amlwg taw atgofion person byw sydd yma) yn cyfleu mwy na'r geiriau, ac yn fwy dirdynnol. Defnyddiodd Briggs ei dalent arlunio sylweddol i greu llyfr sy'n deyrnged hyfryd i'w dad a'i fam, ac rwy'n ddiolchgar iawn iddo am rannu bywyd ei deulu digon cyffredin â'r byd.




Tad, a gweinidog, 'cyffredin' yw testun llyfr yr awdur a'r darlithydd o Gristion, Don Carson, *Memoirs of an Ordinary*

*Pastor: The Life and Reflections of Tom Carson*. Mae Carson yn olrhain hanes bywyd ei dad, a fu'n weinidog yn Quebec (i'r boblogaeth Ffrangeg eu hiaith), drwy gyfuniad o atgofion personol (yr awdur, ei deulu a chyfoedion) a dyfyniadau o ddyddiaduron Tom Carson ei hun. Ar lefel ddynol, gellid dweud na phrofodd Tom Carson lwyddiant mawr yn ei fywyd: nid oedd yn weinidog enwog, ni welodd dyfiant mawr yn ei eglwys (er iddo fyw trwy ddyddiau o gynydd mawr yng ngwaith yr Ysbryd ar ôl ei ymddeoliad), ac fe brofodd sawl siom yn ei weinidogaeth. Eto, dyna her oedd darllen y llyfr yma a chael fy nghyflwyno i was a fu mor ffyddlon i'w Arglwydd.

Mae naratif Carson (y mab) a sylwadau eraill yn dadlennu dyn cadarn, cariadus a gweithgar – ar yr aelwyd, ymhlith aelodau'r eglwys, ac wrth geisio'r colledig. Ar ddiwedd y cofiant, gall yr awdur dystio am ei dad iddo barhau i dyfu fel Cristion drwy'i fywyd. Ac eto trwy ei ddyddiaduron cawn gip ar yr *engine room*: Carson (y tad) yn asesu ac yn ystyried ei fywyd ar ddiwedd pob dydd. Roedd ganddo farn isel iawn ohono'i hun, teimlai siom a rhwystredigaeth yn aml, ond wedi ei gyplysu â hynny y mae'n tynnu'n gyson ar addewidion, cysuron ac arweiniad y Gair – ac yn y fan hon y gwelwn darddiad ei gadernid a'i ddoethineb.

Bydd y llyfr hwn yn sicr o ddiddordeb i aelodau'r Eglwys Efengylaidd Gymraeg yng Nghaerdydd, o ran y cymariaethau rhwng ein sefyllfa ni a sefyllfa'r eglwysi sy'n ceisio mynd â'r Efengyl at *French Canadians*. Yn fwy na hynny fodd bynnag ceir yn y llyfr esiampl loyw o Gristion a oedd yn ddyn y Gair. Yn ei gyflwyniad, dyfynna Don Carson ran o e-bost a dderbyniodd oddi wrth ddyn a gynorthwyodd i deipio'r dyddiaduron:

> *I used to aspire to be the next Henry Martyn [heroic British Bible translator and missionary to the Muslim peoples of India and Persia]. However after reading your dad's diaries, the Lord has given my heart a far loftier goal: simply to be faithful. I know we as men are but dust, but what dust the man I read about in these diaries was!*

*Leri George*

# Gair o brofiad

## *Luned Evans*

**Luned, rwyt ti newydd orffen dy arholiadau TGAU, sy'n syndod o feddwl beth sydd wedi digwydd i ti dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Wnei di ddweud yn fras wrthyn ni beth ddigwyddodd?**

Yn Haf 2007, sylweddolais fod rhywbeth ddim cweit yn iawn. Roeddwn wedi bod yn cael poenau yn fy nghoes dde, ac roeddent yn mynd yn waeth. Ar ôl mynd at y doctor, cefais fy anfon gartref gydag eli a thabledi ac aeth y poen i ffwrdd.

Ym mis Tachwedd roeddwn yn perfformio yn sioe gerdd yr ysgol, a daeth y boen yn ôl – ond mewn lle gwahanol y tro hwn. Roeddwn yn ei chael hi'n anodd iawn i benlinio ac i godi, a datblygais rywfaint o herc wrth gerdded. Penderfynwyd mynd at y doctor unwaith eto. Gwelodd y doctor yn syth fod rhywbeth yn bod, a chefais sgan pelydr-x ar y goes. Ar ôl y sgan pelydr-x cefais fy anfon ar frys i gael sgan MRI. Ar y pryd roeddwn i'n poeni'n aruthrol am y peth, ac wedi drysu pam roedd rhaid i mi gael cymaint o brofion am rywbeth mor fach!

Y noson honno daeth doctor i'n gweld ni o'r feddygfa i roi'r newyddion bod gen i gancr. Yr enw ar y cancr oedd Oseteosarcoma, sef cancr yn yr asgwrn. Roedd y doctor wedi gwneud rhywfaint o ymchwil, ac yn awyddus i ateb unrhyw gwestiynau oedd gennym, ond roeddwn i wedi troi'n ddideimlad, bron, a ddim yn

gwybod beth i'w feddwl nac i'w ddweud. Roeddwn yn cwestiynu fy ffydd, a Duw. Pam fi? Beth oeddwn i wedi'i wneud i haeddu hyn? Ac am amser trois fy nghefn ar Dduw. Doeddwn i ddim am dderbyn y ffaith bod salwch mor beryglus â chas arnaf i.

Ar ôl hyn symudodd pethau'n anhygoel o gyflym. Dechreuais sylweddoli bod Duw yn dal yn fy ngharu, er fy mod i'n sâl. Nid yw'r bywyd Cristnogol i fod yn hawdd, ond mae Duw yna i ni drwy bopeth.

Anfonwyd ni i weld sawl arbenigwr, a thrwy help sawl doctor yn y capel ac o gwmpas Cymru, cefais fy roi o dan ofal Dr Meriel Jenney, doctor enwog yn 'y busnes' fel maen nhw'n dweud. Ar ôl cyfarfod â hi, esboniodd y driniaeth galed o gemotherapi, ac amserlen hir y driniaeth a oedd o'm blaen. Yn lwcus, mae Dr Jenney wedi dysgu Cymraeg ac roedd hynny yn gwneud i mi deimlo'n llawer mwy cyfforddus gyda hi.

Rhoddwyd 'Hickman line' i mewn i'm corff, a dechreuais ar y cemotherapi ddechrau mis Rhagfyr. Digwyddai'r driniaeth yma yn Ysbyty'r Plant yn Y Mynydd Bychan, dim ond deg munud o'r tŷ. Wedyn ar ôl tri mis o gemotherapi cefais lawdriniaeth yn Birmingham i dynnu'r asgwrn a rhoi darn o ditaniwm yn ei le. Tynnwyd 20cm o asgwrn o'm pen-glin lan. Ar ôl y llawdriniaeth roedd rhagor o



gemotherapi. Roedd y cylched yma'n llawer hirach – chwe mis caled ohono. Yn araf yn ystod y cyfnod hwnnw roeddwn yn dysgu byw gyda'r goes ac yn dysgu o'r newydd sut i gerdded arni. Roeddwn ar *crutches* am sbel hir, ag yn gweithio'n galed i allu cerdded hebddynt. Aeth yr amser yn weddol araf, i mewn ag allan o Ysbyty'r Plant. Tair wythnos allan o bob pump i ddechrau, ac yna tair wythnos o bob pedair.

Gorffennais y driniaeth ar y 5ed o Awst 2008, wythnos Eisteddfod Caerdydd. Yr wythnos ar ôl hynny es i i'r Gwersyll Cristnogol ym Mryn-y-groes, Y Bala. Roedd Duw wedi fy nghynnal a gofalu amdanaf drwy'r cyfan, ac wedi rhoi sawl ateb i weddi yn ystod yr amser anodd.

Wedyn, dros y flwyddyn ysgol ddiwethaf, llwyddais i ddal i fyny gyda fy ngwaith ysgol ar ôl colli blwyddyn 10 i gyd. Roedd fy mrawd Llion yn dysgu Maths a Ffiseg i mi, a chefais lawer o help gan nifer o athrawon yn yr ysgol ac sy'n ffrindiau i'r teulu. Gwnes i naw pwnc TGAU i gyd, ond llawer iawn o arholiadau. Diolch i bawb am helpu.

**Wnei di sôn am y broses anodd o fynd trwy'r triniaethau cemo a physio ac ati?**

Cefais sioc y tro cyntaf i mi gael cemotherapi! Roedd y cyffuriau – Doxorubicin a Cisplatin – yn rhai cas iawn, ac roeddwn yn sâl drwy'r nos a'r dydd, ac yn gorfod cymryd mynydd o dabledi gwahanol. Cyffur arall a gefais oedd Methotrexate, oedd ddim mor wael, ond roeddwn yn gorfod aros yn yr ysbyty am bum diwrnod yn dilyn y driniaeth, i gael gwared o'r cyffur drwy bwmpio hylif drwy fy nghorff. Yn ogystal â'r naw mis o driniaeth cemo, roedd ymweliadau hir, a niferus iawn, i'r ysbyty. Ar ôl gorffen pob dos byddwn i nôl ac ymlaen, bob rhyw am-yn-eilddydd, yn cael profion gwaed, sganiau ar y galon, physio a llawer o bethau eraill.

I mi, yn ferch bymtheg oed, y peth gwaetha oedd colli fy ngwallt. Roedd y syniad o wisgo hetiau a gwallt ffug yn hunllef. Dechreuodd fy ngwallt gwympo allan bythefnos yn union ar ôl cael y driniaeth gyntaf. Daeth mas mewn talpiau enfawr, ac roedd gwallt YM MHOBMAN. Collais lawer o hyder ar ôl colli'r gwallt,

ac roeddwn yn ei chael hi'n anodd bod pobl yn syllu arnaf. Ond yn yr ysbyty roedd pawb yr un peth, doedd neb â gwallt yno. Roedd rhai rhieni yn siafio eu gwallt eu hunain, hyd yn oed, i fod yr un peth â'u plant!

Un adeg roedd y physiotherapydd yn gweithio gyda mi am amser imi allu plygu fy nghoes gymaint â phosib. Roedd hi wedi bod wrthi'n sythu ac yn plygu'r goes am awr a mwy, a gan fod ei breichiau'n brifo erbyn y diwedd, defnyddiwyd peiriant i wneud y gwaith drosti. Roedd yn boenus, ond penderfynais fod gwerth dioddef y boen, er mwyn gallu cerdded a mynd ymlaen gyda fy mywyd. Pan gefais y llawdriniaeth yn Birmingham daeth y ddwy physio roeddwn yn gweithio gyda nhw yng Nghaerdydd lan, fel rhan o'u hyfforddiant, i weld y llawdriniaeth. Ar ôl hynny roeddent yn llawer mwy sensitif, ac yn deall pam mae cleifion yn cwyno cymaint!

**Beth oedd yn help i ti yn ystod y cyfnod yma? (seciwlar)**

Yn rhan o drefniant y stafelloedd yn yr ysbyty, roedd gwely sbâr ar bwys gwely'r claf. Roedd un aelod o'm teulu yn aros gyda fi bob nos, er mwyn helpu mynd â mi i'r tŷ bach, helpu pan oeddwn yn sâl a.y.b. Ar un adeg roedd hyd yn oed ffrindiau teulu wedi aros! Roedd yn gymorth i wybod bod rhywun wrth law drwy'r amser.

Roedd fy ffrindiau i gyd yn gymorth enfawr, roedd Elen Morris, Sioned Wyn, Jenny a Lewis, athrawon a llawer mwy o bobl o'r ysgol a'r capel yn dod i'm gweld yn aml iawn. Roedd pobl yn codi fy nghalon bob tro roeddent yn ymweld. Roeddwn yn sylweddoli ei bod yn anodd i bobl ddod i'm gweld, ond rydw i'n dal yn eithriadol o ddiolchgar i bawb, hyd heddiw.

Roedd y ffaith fy mod i wedi gallu bod yn forwyn briodas i Eleri James yn hwb enfawr i mi. Oherwydd fy mod i wedi colli lawer o bwysau, roedd rhaid ail-wneud y ffrog unwaith neu ddwy! Cefais ddiwrnod gwych, ac mi fyddaf yn cofio'r diwrnod am byth, Diolch i chi Eleri a Jon.

**Pa wersi ysbrydol wyt ti wedi eu dysgu trwy hyn?**

Rydw i wedi dysgu bod popeth

yn digwydd am reswm. Er nad ydym ni ddim yn deall pam, efallai, Duw yw'r un sy'n iawn. Mae'n dweud yn glir yn y Beibl nad yw bywyd yn hawdd, ac mae fy mhrofiad i yn dangos hynny. Ond mae Duw yn ein cynnal ni. Drwy'r salwch yma rydw i wedi profi cariad a gras Duw i raddau mwy na bydd llawer o bobl byth yn eu profi efallai. Roedd fy mywyd wedi cael ei stripio i lawr at y pethau pwysicaf: Duw, fy nheulu a'm ffrindiau. A drwy hyn gallwn weld gwir bwrpas bywyd. Er fy mod i'n Gristion cyn mynd yn sâl, gwnaeth Duw fi'n berson llawer mwy gostyngedig.

**Ydi'r salwch wedi dy newid di mewn unrhyw ffordd?**

Rydw i wedi dysgu bod yn amyneddgar, bod popeth yn cymryd amser. Pan oeddwn i yn yr ysbyty, doedd dim yn cael ei wneud yn gyflym. Hefyd roedd sawl digwyddiad ble roeddwn i'n teimlo yn gynddeiriog. Ond fel mae'n dweud yn Galatiaid 5.22, sylweddolais fod angen dangos cariad, goddefgarwch ac addfwynder hyd yn oed pan oeddwn wedi blino ac yn y gwely.

**Nawr bod yr arholiadau drosodd, mae'n naturiol dy fod yn edrych ymlaen at y dyfodol. Beth yw dy obeithion i'r dyfodol (tymor byr a hirdymor)?**

Tymor byr – Rwy'n edrych ymlaen at yr haf, i weithio yn y Gorlan a mynd i'r Gwersyll. Bydd y Gorlan yn brofiad da, cyfle i ateb cwestiynau pobl ifanc ynglŷn â Christnogaeth ac i efengylu. Gweddïaf y bydd Duw yn rhoi nerth i'r gweithwyr i gyd, a bydd yr Ysbryd Glan yn gweithio yng nghalonnau pobl. Hefyd rwy'n edrych ymlaen at weld fy ffrindiau Cristnogol, ac i allu siarad am y profiadau a'r problemau ges i dros y flwyddyn ddiwethaf.

Tymor hir – Mynd i'r Chweched, i wneud Cymraeg, Drama, Celf, ac efallai Hanes neu Gemeg. Dod i adnabod Duw yn well ac iddo Ef fy arwain i yn fy mywyd ac yn y dewisiadau pwysig sydd o'm blaen yn y blynyddoedd nesaf.

# Holi Hwn a Hon

# Phil Ellis

**Sut daethoch chi'n Gristion?**
Ces i wahoddiad i fynd i'r eglwys yn ystod fy wythnos gyntaf fel myfyriwr yng Nghaergrawnt. Roeddwn i wedi fy magu mewn capel Wesleaidd yn Wallasey ar lannau Merswy. Roedd hi'n oedfa nos mewn eglwys Anglicanaidd, a'r pregethwr oedd John Stott. Teimlais fy nghalon yn cynhesu'n rhyfeddol wrth glywed rhywun yn cyhoeddi'r Crist atgyfodedig â'r fath awdurdod. Teimlais fod yr Iesu ei hun yn agosáu ataf. Roedd cwmni ffrindiau Cristnogol ac astudiaethau beiblaidd yn y coleg yn help mawr hefyd.

**Sut profiad oedd gweithio yn Ysgol Rhydfelen am 35 o flynyddoedd?**
Dechreuais yn Rhydfelen ar gytundeb dros dro am flwyddyn. Rydw i'n dal i gofio'r cyfweliad gyda'r prifathro, Mr Gwilym Humphreys. Roedd fy Nghymraeg wedi gwella llawer erbyn hynny, diolch i bobl fel Geraint Elfyn, Lis a Beryl, ond doedd yr atebion ddim yn llifo! Yn y blynyddoedd cyntaf roedd yr Undeb Cristnogol, dan arweiniad Ruth Evans ac Ann Mason Davies, yn gryf ac yn gymorth i mi gael fy adnabod fel Cristion yn yr ysgol.

Mwynheais y dysgu, yn enwedig y Sbaeneg. Roedd y gwersi'n gallu bod yn llawer o sbort. Roedd yn fraint dod i adnabod rhai a ddringodd yn uchel iawn yn eu meysydd eu hunain, a hefyd dod yn agos at gannoedd o ddisgyblion a'u rhieni a oedd heb fod mor ddawnus ond a oedd yn gymeriadau cynnes, nodweddiadol o'r Cymoedd ar eu gorau. Roedd hi wastad yn wych cael cydweithio mewn tîm mor ymroddgar o athrawon da.



Hefyd, ar fy niwrnod cyntaf ffeindiais fy hunan yn eistedd drws nesaf mewn cyfarfod athrawon i rywun arall a oedd yn dechrau'r diwrnod hwnnw, sef Angharad, a fyddai ymhen amser yn dod yn wraig i mi! Teimlaf fod llaw yr Arglwydd wedi bod arnaf i yno mewn nifer o ffyrdd – yn rhoi cyfleon i mi siarad am yr Efengyl wrth y plant a'r athrawon, ac yn fy nghadw rhag drwg.

**Sut mae bywyd wedi ichi ymddeol?**
Yn debyg i fywyd cyn ymddeol yn yr ystyr bod y pethau brys yn gallu disodli'r pethau pwysig yn rhwydd iawn. Dydw i ddim eto wedi dechrau dysgu Almaeneg na Groeg y Testament Newydd na thynnu llun! Ond mae cloch yr ysgol wedi canu arna i am y tro olaf, ac mae hynny'n braf. Weithiau rydw i'n mynd heibio i ryw ysgol neu'i gilydd am 3 o'r gloch a gweld y torfeydd yn heidio mas – rhaid dweud bod elfen o ryddhad yn dod drosof i!

Rydw i wedi gwerthfawrogi gwahoddiadau i bregethu yma ac acw. Mae mwy o amser i wneud ymarfer corff – mewn theori, o leiaf – a llawer mwy o amser i ddatblygu'r gerddoriaeth. Mae'r gerddorfa lle rwy'n chwarae yn gyfle naturiol i glosio at bobl – mae hynny'n werthfawr a phwysig i mi.

**Beth yw eich hoff emyn?**
Mae cynifer o hoff emynau! Mae pob emyn sydd yn *Trysorau Gras* Wyn James yn fendith ac yn ysgogiad i addoliad. Rydw i'n arbennig o hoff o gyfieithiad Dafydd Job o emyn Stuart Townend, 'Pa fawredd yw'r gogoniant hwn'. Mae'n dda i'w

ganu amser y Nadolig, ond mae'r olwg sydd ar yr Ymgnawdoliad yn asio'n hyfryd â'r gerddoriaeth ar unrhyw adeg – mae'r cytgan bob amser yn dod â'r Arglwydd yn agos i mi.

**Beth yw eich gobeithion am y dyfodol?**
Rydw i wedi dechrau gwneud rhai pethau newydd. Rydw i wedi dechrau mynd i gwrdd ar gyfer ceiswyr lloches o bob math o wledydd sy'n cyfarfod o wythnos i wythnos yn eglwys Minster. Rydw i wedi derbyn gwahoddiad i weithredu fel llywodraethwr yn ysgol y Mynydd Bychan – bydd hynny'n sicr yn brofiad diddorol. Cawn weld sut mae'r pethau yma'n troi mas.

Rydw i'n gobeithio y byddaf yn fwy agored i'r hyn mae'r Arglwydd am i mi fod, yn fwy hyderus ac yn llai ofnus. Wrth edrych yn ôl, ofn sydd wedi bod wrth wraidd llawer o'r pethau negyddol yn fy mywyd. Ar ôl cael y fath welliant wedi'r strôc ges i 15 mlynedd yn ôl, dylwn i wybod yn well ac ymddiried mwy! Ond mae Duw, yn ei drugaredd a'i ffyddlondeb, yn aros gyda mi – ac rwy'n dal i gredu bod pob disgybl i Iesu Grist yn gallu dweud bob amser fod y gorau eto i ddod.

---

**DIWYGIAD 1859**

Roedd y plant yn amlwg yn y Diwygiad: Rhyl. Cafodd y plant fedydd anarferol. Tyfasant fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd. Un bychan 6 oed a weddiai: 'Mae ein pechodau yn dduon iawn, Arglwydd, ond O diolch iti am ffynnon goch Calfaria i'w golchi nhw yn reit wyn. Maddeu nhw, O Arglwydd; tafla nhw tu nol i Ti i'r twll lle byddi di yn eu colli nhw am byth. O Arglwydd rhwyma Satan yn uffern. Cadw fo i lawr yno; paid a gadael iddo fe ddyfod allan eto. Cadw fo yno a rho glo amo. O Arglwydd, achub y Pab, a gwna fe'n bregethwr'

Allan o J. J. Morgan, *Hanes Dafydd Morgan Ysbyty a Diwygiad '59*.

# Newyddion

Teithiodd criw o'r eglwys i Drefeca ddechrau Mehefin eto eleni, i ddiwrnod Eglwysi'r De. Cafwyd diwrnod llawen a bendithiol wrth gymdeithasu â Christnogion o Gaerfyrddin, Llanbedr ac Aberystwyth (a Bangor!), a dod i ddeall mwy am y gwaith ym mhob un o'r eglwysi a gynrychiolwyd.

Profiad newydd inni fel eglwys yn ddiweddar oedd cynnal cyfarfod ar long! Cynhaliwyd gwasanaeth Cymraeg ar fwrdd y *Logos Hope* yn ystod ei hymweliad â'r Brifddinas, ac aelodau gwahanol o'r eglwys yn arwain, canu, cael eu cyfweld a phregethu. Braf oedd cael cydaddoli â Christnogion Cymraeg eu hiaith o wahanol eglwysi'r ddinas. Cofiwn hefyd yn ein gweddïau am y ffrindiau a ddaeth i'r gwasanaeth a chlywed yr Efengyl.

Croeso mawr iawn i Gwion Myrddin Jones – mab i Rhodri ac Anwen a brawd bach i Elliw a Iolo, a aned mis Mehefin.

Mae tymor y priodasau ar ddechrau. Bydd Nerys Williams a Tom King yn priodi ar 31 Gorffennaf, a Lewis Roderick a Jenny Evans ar 26 Medi. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Huw Aaron a Luned Emyr ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymunwn bob bendith i'r tri phâr ar y diwrnod mawr a thrwy eu bywyd priodasol.

Ffarwél (am flwyddyn) i Gwenllian Edwards sy'n mentro i Nice, yn ne Ffrainc, o fis Medi i weithio gyda IFES, cyn dod yn ôl i gwblhau ei gradd Ffrangeg. Gobeithio y byddi di'n setlo'n fuan, Gwenllian, ac yn cael blas ar y gwaith.

Dros wythnos cyntaf mis Medi bydd Gerallt Elis yn mynd gyda thim o bobl ifainc i redeg *Soccer School* yn Burkina Faso. Dyma un o wledydd tlotaf y byd. Nod y gwersyll peldroed yw rhannu'r efengyl yn Gorom-Gorom gan ddenu plant i ysgol gynradd newydd y mae cristnogion yn ei sefydlu yno.

**Dros yr Haf gweddïwch dros:**

**Eisteddfod Y Bala** (1–8Awst), a'r cenhadu a fydd yn digwydd ar y Maes ac ym mhabell y Gorlan.

**Gwersylloedd Mudiad Efengylaidd Cymru** yn Quinta a Bryn-y-groes (8–15 Awst). Bydd nifer o'n haelodau yn arwain, yn pregethu, yn coginio ac yn 'swogio,' a nifer o'n plant a'n pobl ifainc yn mynychu fel gwersyllwyr.

**Cynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru** yn Aberystwyth (17–21Awst), pryd y bydd Martin Williams yn ymgymryd â'r prif anerchiadau.

**WALTER CRADOC (1610?-1659)**
O dan ei weinidogaeth ef y dychelwyd Morgan Llwyd at Grist.

**Cyfiawnhad trwy ffydd**
Mae'n dda iawn eich bod yn gweld a theimlo pechod, eich bod yn galaru am bechod a brwydro yn ei erbyn, ond meddyliwch oherwydd hynny bod diffyg yn eich cyfiawnhad, a bod unrhyw ddaioni ynoch chwi yn brop i gynnal eich cyfiawnhad, a bod y drygioni ynoch chwi yn grac yn eich cyfiawnhad; dyma beth yw Pabyddiaeth. Nid yw'n dibynnu ar hyn, fy mod yn fwy cyfiawn pan wyf yn gryf, ac yn llai cyfiawn pan wyf yn wan, yn hytrach os wyf wan neu gryf, yn gwneud llawer neu ychydig dros Dduw, yn diolch neu cael fy mhlygu, gan fod Crist wedi marw ac atgyfodi drachefn, rwy'n gyfiawn, mae fy nghyfiawnhad yn gyflawn, oherwydd nid adeiladwyd ef ar ddim ynof fi, ond yn gyfangwbl ar farwolaeth ac atgyfodiad Crist.

*Allan o un o bregethau Walter Cradoc ar Rufeiniaid 8:4.*

# I’r Dyddiadur

## *Yn ystod yr wythnos...*
## *(Ag eithrio mis Awst)*

**Cyfarfod Gweddi** | nos Fawrth | 7.40pm
**Paned a Sgwrs** | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
**Cylch y Plant Bach** | bore Gwener | 10.00 - 11.30am

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

## *Ar ddydd Sul...*

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau’r ysgol (11.45 – 12.30am).

| | | |
|---|---|---|
| *Gorffennaf* | *19* | *Gwynn Williams / Trystan Hallam* |
| | *26* | *Gwynn Williams* |
| *Awst* | *2* | *Gwynn Williams / Trystan Hallam* |
| | *9* | *Gwynn Williams* |
| | *16* | *Gwynn Williams* |
| | *23* | *I’w drefnu* |
| | *30* | *I’w drefnu* |
| *Medi* | *6* | *I’w drefnu* |
| | *13* | *Dafydd Job* |
| | *20* | *Gwynn Williams* |
| | *27* | *Gwynn Williams / Trystan Hallam* |

**Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd**
**Stryd Rhymni**
**Cathays, Caerdydd**

**www.cwmpawd.org**